PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD LLUN, 18 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Aelodau Annibynnol: Ian Arundale (Cadeirydd), Hugh Thomas a/ac David Price |
| | Y Cynghorwyr Bale, Cowan, Cunnah, Howells, Lay, McGarry, Dianne Rees a/ac Singh |

22 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gavin McArthur.

23 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bale | Eitem 5.2 | Arweinydd y Cyngor 2014-17 |
| Y Cynghorydd Cowan | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Cunnah | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 4.1 a 10.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Lay | Eitem 5.2 | Cyfarwyddwr Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd McGarry | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Rees | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cynghorydd Singh | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |

24 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2017 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Materion Gweithredol

25 : MATERION GWEITHREDOL

*Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

| | |
|---|---|
| *Y Cynghorydd Cowan* | *Llywodraethwr Ysgol* |
| *Y Cynghorydd Cunnah* | *Llywodraethwr Ysgol* |
| *Y Cynghorydd Howells* | *Llywodraethwr Ysgol* |
| *Y Cynghorydd McGarry* | *Llywodraethwr Ysgol* |
| *Y Cynghorydd Rees* | *Llywodraethwr Ysgol* |
| *Y Cynghorydd Singh* | *Llywodraethwr Ysgol* |

Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2017, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'n bosib derbyn adroddiad ar lywodraethu ysgol a ffigyrau a barn cyfredol mewn perthynas â'r risg corfforaethol o ran balansau blynyddol ysgolion. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad cyntaf o'i fath.

Cafodd yr aelodau wybod bod 127 ysgol yng Nghaerdydd a bod y gyllideb ddirprwyedig net yn £235.992 miliwn. Mae gan Gyrff Llywodraethu Ysgolion gyfrifoldeb dros

lywodraethu’r cyllid hwn mewn modd effeithiol, a thros eu defnyddio nhw'n gywir. Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi cynllun i ariannu ysgolion, ac mae’r Rheoliadau hynny hefyd yn nodi materion sydd angen eu cynnwys, gan gynnwys gofynion adrodd ariannol, archwilio, bancio a chaffael. Mae ysgolion yn derbyn cyngor a chanllawiau rheolaidd ar faterion ariannol drwy Dîm Rheoli Ariannol Lleol a Thîm Archwilio Mewnol y Cyngor.

Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol hefyd i fod â Fforwm Cyllideb Ysgolion, sy’n allweddol er mwyn datblygu cyswllt hyderus a chynhwysfawr rhwng yr ALl a'i ysgolion ar faterion cyllidebol gan gynnwys lefelau ariannu ysgolion, pwysau ariannol, newidiadau i fformiwlâu ariannu lleol ac adolygu contractau/cytundebau lefel gwasanaeth rhwng ALl ac ysgolion.

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb i'r Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Archwiliadau ysgol
- Dull Hunan Asesu Rheoli Risg Ysgol
- Balansau Ysgolion
- Barn y Cyfarwyddwr
- Balansau Ysgolion

Siaradodd y Cyfarwyddwr Addysg â’r Pwyllgor. Cafodd yr aelodau wybod bod canlyniadau arholiadau 2017 yn bositif ac yn galonogol. Cyflawnwyd parhad o'r gwelliant cyffredinol ond roedd mwy o waith i'w wneud.

Gofynnwyd i’r aelodau nodi bod twf yn y cyllidebau cario drosodd yn gyffredinol o £2.5 miliwn ar 31 Mawrth 2016 i £4.2 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Er bod rhai ysgolion yn dal i fod â diffyg, mae gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion sydd â diffyg ariannol. Trafodwyd y Dull Hunan Asesu Rheoli Risg Ysgolion sydd wedi bod ar waith ers dwy flynedd. Cafodd yr aelodau wybod bod cydweithwyr o Addysg a’r pwyllgor Archwilio yn datblygu deialog a bod cyfarfodydd rheolaidd yn arwain at fanteision o ran targedu adnoddau.

Agorodd y Cadeirydd ddadl ar yr eitem hon.

- Nododd Aelod, o dan y trefniadau blaenorol, yn yr achosion mwyaf difrifol, gofynnwyd i Benaethiaid fynychu Pwyllgorau Archwilio.Nododd y Cyfarwyddwr bod cyllid a rheoli cyllidebau’n faterion pwysig iawn o gyrff llywodraethu ysgolion ac mai llywodraethwyr sydd â’r cyfrifoldeb. Mae gan gydweithwyr yn y Tîm Archwilio gyfres o faterion llywodraethu fydd yn cael eu rhoi i ymgynghorwyr her sydd, yn eu tro, yn codi ymwybyddiaeth am lywodraethu ysgol da.

- O ran materion sicrwydd cyfyngedig, nododd y Cyfarwyddwr ei fod wedi derbyn adroddiad Archwilio manwl a bod materion yn cael eu huchafu a’u dilyn i fyny lle bo angen. Ystyriodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol derbyn manylion am nifer yr ysgolion lle cafwyd unrhyw ymyrraeth. Cytunodd y Pennaeth Cyllid i roi rhagor o fanylion yn adroddiad blwyddyn nesaf.

- Nododd yr aelodau bod gan 12 ysgol falensau dros £100,000, a gofyn a oedd hi'n bosibl i wneud rhywbeth i gael y cyllid hwn yn is. Nododd y Cyfarwyddwr nad yw protocolau Llywodraeth Cymru ar falensau ysgolion yn ystyried maint yr ysgol. Mae

adroddiadau Fforwm Cyllideb Ysgolion yn dangos balansau dros ben fel canran o'r gyllideb gyffredinol. Roedd hi'n bwysig nodi bod cyllid dros ben yn aml yn cael eu cadw i un ochr i'w wario yn y dyfodol. Lle bo cyllid dros ben, bydd llythyrau'n cael eu hanfon at Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu i ofyn iddynt egluro cynllun ar y ffordd y byddant yn gwario'r cyllid. Nid oes unrhyw gyllid wedi'i dynnu nôl eto, ond mae gan yr awdurdod y pŵer i wneud hynny.

- Cadarnhaodd y swyddogion bod rhaid i'r awdurdod sefydlu Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ôl deddfwriaeth. Nid yw'r Fforwm yn gorff gwneud penderfyniadau ac mae cyfansoddiad y Fforwm wedi'i bennu gan Reoliadau. Mae Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Fel corff ymgynghorol, mae'r aelodau sy'n mynychu yn cynnig adborth pwysig i Benaethiaid. Mae rhestr yr aelodau a'r papurau ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor, ac mae'r Fforwm yn ceisio cael mwy o dryloywder, gan ei bod hi'n bwysig bod staff yn deall bod ganddynt lais a bod eu pryderon yn cael eu hystyried.

PENDERFYNWYD – Y byddai'r wybodaeth a'r farn yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

Cyllid

26 : CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â monitro'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol, a rhoi diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb 2018/19 a'r tymor canolig. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro'r Gyllideb Mis 4 y Cabinet.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, o ran refeniw, roedd disgwyl gorwariant o £883,000 oedd yn adlewyrchu'r pwysau ariannol a'r diffyg yn erbyn arbedion cyllidebol ynghyd â rhagamcan o orwariant mewn perthynas â chostau ariannu cyfalaf. Rhagfynegir y bydd cyllidebau'r cyfarwyddiaethau yn gorwario gan £5.4 miliwn, fodd bynnag, rhagwelir y caiff hyn ei leihau gan gamau rheoli erbyn ddiwedd y flwyddyn. Roedd manylion llawn rhagfynegiad y sefyllfa alldro ar gyfer 2017/18 yn yr adroddiad Cabinet.

Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, nododd y Cyfarwyddwr bod strategaeth y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn disgwyl cynnydd cyflog o 1% ar gyfer staff. Gofynnodd yr aelodau a oedd y dull gwydnwch £4 miliwn wedi'i sefydlu fel egwyddor wrth lunio'r gyllideb. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y dull wedi bod ar waith ers 2 flynedd.

Gofynnodd yr aelodau pam nad oedd yn bosibl i gael ragamcan o'r gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod sawl rheswm dros y gorwariant yn y blynyddoedd diweddar, gan gynnwys balansu anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion a chynnydd yn nifer y plant sydd angen cymorth.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro cyllidebol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â pharatoi'r gyllideb ar gyfer 2018/19 a'r tymor canolig.

27 : DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL 2016-17 (GAN GYNNWYS AGS)

*Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

*Y Cynghorydd Lay   Cyfarwyddwr Bws Caerdydd*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru archwilio'r cyfrifon drafft, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau bod y cyfrifon yn bositif, a doedd dim cyfriflenni anghywir. Gofynnwyd i'r aelodau nodi paragraff 8 o'r adroddiad oedd yn amlygu sawl canlyniad ansoddol.

Siaradodd Anne-Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) â'r Pwyllgor.  Cafodd yr aelodau wybod bod SAC yn bwriadu cyflwyno adroddiad heb gymwysterau gan gynnwys dim cyfriflenni anghywir na materion pryder eraill.

Ceisiodd yr aelodau eglurder ar y trothwy ar gyfer cyfriflenni anghywir a ph'un ai a oedd SAC yn hyderus o ran y broses i wneud yn iawn am hyn.  Nododd Anne-Marie Harkin bod angen i SAC adrodd am gyfriflenni anghywir nad oeddynt yn cael eu gwirio a bod prosesau priodol ar waith.

Nododd Aelod bod rhai awdurdodau wedi cynnwys matrics cymdeithasol yn eu Datganiad Cyfrifon, gan ofyn a oed gan Gaerdydd gyfle i drafod ymdrechion i fynd ar ôl y materion hynny yn y ddogfen hon.  Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y mater ar yr agenda i'w hystyried yn y dyfodol.  Fodd bynnag, mae swyddogion wedi canolbwyntio ar wneud y ddogfen yn fwy eglur.

Gofynnodd Aelod i swyddogion fynegi barn ar brisiad Bws Caerdydd yn gostwng gan £3 miliwn o'i gymharu â'r llynedd.  Nododd y Swyddogion bod prisiad Bws Caerdydd yn newidiol a bod adroddiadau chwarterol mewn perthynas â hyn.  Mae gan Fws Caerdydd ei drefniadau llywodraethu ac archwilio ei hun.  Nododd Aelod y byddai prisiad Bws Caerdydd, ac yn benodol lleihad yn ei werth, yn effeithio ar yr awdurdod.  Gofynnodd yr Aelod pe byddai'r sylwadau hynny'n cael eu cofnodi.

PENDERFYNWYD – Nodi'r Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2016/17.

Llywodraethu a Rheoli Risg

28   :   LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y sefyllfa rheoli risg yn dilyn yr Adolygiad Rheoli Risg - Chwarter 1 2017/18. Mae pob Cyfarwyddwr wedi gweithio gyda'i Bencampwr Risg ar yr adolygiad Chwarter 1.  Gwnaeth y Tîm Rheoli Risg a'r Uwch Dîm Rheoli gynnig cyngor a chanllawiau ar fesur ac adrodd am risgiau,

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb i Aelodau'r Pwyllgor am sefyllfa Chwarter 1 o ran Risgiau'r Gyfarwyddiaeth a Risgiau Corfforaethol.  Cafodd yr aelodau wybod bod 369 o risgiau cyfarwyddiaeth wedi'u hadrodd amdanynt ar Gofrestrau Risg Cyfarwyddiaeth (CRC) a bod 13 o risgiau wedi'u trafod gan yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Pennodd adolygiad o'r risgiau blaenorol nad oedd angen adrodd ar 4 ohonynt mwyach.

Cytunodd yr Uwch Dîm Rheoli y byddai pob risg yn cael ei reoli ar lefel y gyfarwyddiaeth. Roedd 25 o risgiau corfforaethol ar waith cyn adolygiad rheoli risg chwarter 1. Gwnaeth yr adolygiad arwain at sefyllfa sefydlog heb orfod gwneud unrhyw newidiadau i'r graddfeydd risg a dim risgiau newydd na gwaredu risgiau i'r CRC.

Nododd Aelod bod 8 risgiau oedd â risg gweddilliol oedd yr un peth â risg cynhennid a bod hyn fwy neu lai yn risg nad oedd modd gwneud unrhyw beth amdani. Ar ôl trafodaeth fyr, cytunwyd y byddai cyfarfod dilynol yn cael ei drefnu rhwng y Swyddog a'r Aelod. Cytunwyd y dylid adrodd yn ôl am y canfyddiadau i gyfarfod arall o'r Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Swyddogion i nodi a oedd yr adolygiad Iechyd a Diogelwch o ran adeiladau wedi'i gwblhau gan ofyn i adroddiad ohono gael ei gyflwyno mewn cyfarfod i'r dyfodol er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

29 : ADRODDIAD CYNNYDD AR WEITHREDU'R DATGANIAD CAMAU GWEITHREDU

Ym mis Mawrth 2016, cytunodd y Cabinet ar Ddatganiad Gweithredu mewn ymateb i Adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol 2016 Swyddfa Archwilio Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd yn manylu'r gwaith a wnaed mewn ymateb i ganfyddiadau SAC hyd yma. Dywedwyd wrth Aelodau fod y Datganiad Gweithredu nawr wedi'i gwblhau, a bod unrhyw waith heb ei gwblhau wedi'i ymgorffori i mewn i weithgarwch 'busnes fel yr arfer' y Cyngor. Cytunwyd ar y dull gweithredu hwn gan SAC.

Atodwyd y Datganiad Gweithredu a'r Adroddiad Cynnydd i'r adroddiad yn Atodiad A a B yn y drefn honno. Croesawodd y Cadeirydd Joe Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, a Sarah-Jane Byrne o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Dywedodd Sarah-Jane Byrne fod yr awdurdod yn symud yn y cyfeiriad cywir a bod y Datganiad Gweithredu wedi cael ymateb cadarnhaol.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid, er bod yr holl faterion sylweddol wedi'u datrys, fod nifer o fân faterion yn parhau ac y byddai'r Awdurdod yn parhau i fonitro'r Datganiad Gweithredu drwy fecanweithiau safonol.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnydd y Cyngor yn erbyn y Datganiad Gweithredu.

30 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

*Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

*Y Cynghorydd Bale Arweinydd y Cyngor 2014-17*

Ystyriwyd adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru dan eitem 5.2 ar yr agenda.

31 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar astudiaeth cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o Godi Tâl am Wasanaethau a Chreu Incwm gan awdurdodau lleol.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ymgymryd ag astudiaethau cenedlaethol ledled llawer o swyddogaethau a gweithgareddau llywodraeth leol. Cyhoeddwyd adroddiad o'r enw 'Codi Tâl am Wasanaethau a Chreu Incwm gan Awdurdodau Lleol' ym mis Tachwedd 2016. Roedd yr astudiaeth yn edrych ar llawer o wahanol agweddau ar godi tâl am wasanaethau ar ddisgresiwn, megis:

- Sut mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio eu pwerau i gyflwyno a chynyddu costau am wasanaethau
- Sut mae perfformiad o ran creu incwm wedi newid mewn blynyddoedd diweddar
- Y broses o ymgynghori â defnyddwyr ar newidiadau i brisiau
- Asesiadau effaith o benderfyniadau codi tâl ar ddefnyddwyr

Gwnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan mewn arolwg ar-lein a gwnaeth chwech awdurdod gymryd rhan mewn arolwg manylach o'u dull codi tâl am wasanaethau.

Roedd sylwadau ac argymhellion SAC ac ymateb Caerdydd i'r canfyddiadau yn yr adroddiad.

Gan gyfeirio at grynodeb 4 blynedd data cynhyrchu incwm cymharol sydd yn Atodiad B yr adroddiad, ystyriodd yr Aelodau y byddai'n fwy defnyddio i dderbyn cyfanswm yr incwm a gynhyrchir ynghyd â'r ffigwr a nodir fel canran o'r gwariant.  Gofynnodd yr aelodau pe byddai'r adroddiad yn cynnwys cyfanswm yr incwm a gynhyrchir yn y dyfodol.  Cytunodd y Swyddogion i gynnig y wybodaeth hon.

Cadarnhaodd Swyddogion bod y gostyngiad mewn incwm yn y Gwasanaeth Gwastraff o ganlyniad i ostyngiad o ran gwerth deunyddiau ailgylchadwy.

Gofynnodd Aelod a oedd yr awdurdod yn or-ddibynnol ar gynhyrchu incwm, yn benodol mewn perthynas â hysbysiadau tâl cosb gan barcio, oherwydd pwrpas hysbysiadau cosb yw newid ymddygiad ac annog symud at drafnidiaeth gynaliadwy.  Nododd yr Aelod bod angen ystyried creu incwm, ond bod angen rheoli'r effaith o'r costau/ffioedd ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Ystyriodd y Pwyllgor ddefnydd yr awdurdod a'r feiliaid, ac a oeddynt yn gost-effeithiol. Roedd y Swyddogion yn cydnabod eu bod nhw'n ymwybodol o'r risg o ddefnyddio cwmnïau fyddai'n gweithredu arferion annymunol. Cadarnhawyd bod y beilïaid y mae'r awdurdod yn eu defnyddio'n cael eu monitro, ac nid oedd arferion annymunol yn cael eu goddef.  Nodwyd er bod angen casglu'r Dreth Gyngor, roedd angen bod yn gyson ac yn gadarn wrth gasglu'r dyledion hynny.  Roedd dyledwyr yn cael eu hannog i roi cynlluniau talu ar waith er mwyn osgoi defnyddio beilïaid.

PENDERFYNWYD – Nodi gwaith yr Archwiliwr Cyffredinol o ran yr adroddiadau.

Rheoli'r Drysorlys

32 : RHEOLI'R DRYSORLYS

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiad sefyllfa a pherfformiad ar 31 Awst 2017.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

33 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Drysorlys 2016/17.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol

34 : EITHRO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y gwaherddir y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod i'r aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth.

35 : ARCHWILIAD MEWNOL

*Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

| | |
|---|---|
| *Y Cynghorydd Howells* | *Llywodraethwr Ysgol* |

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol oedd yn rhoi diweddariad ar waith Archwilio Mewnol fel ag yr oedd ym mis Awst 2017 ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Gofynnwyd i'r Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r newidiadau arfaethedig i gynllun archwilio 2017/18.

Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod, rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod i'r Aelodau y byddai argymhellion archwilio a nodir yn Atodiad C yn rhan o'r adroddiadau diweddaru am gynnydd archwilio rheolaidd.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad a'r newidiadau i'r cynllun archwilio 2017/18.

36 : ADRODDIAD PENNAETH CYLLID - Y TÎM YMCHWILIADAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar waith Tîm Archwilio'r Is-adran Archwilio Mewnol fel ag yr oedd ym mis Awst 2017. Gwnaeth yr aelodau nodi cynnwys yr adroddiad cynnydd (Atodiad 1). Cafodd yr Aelodau hefyd gfylwyniad ar waith y Tîm Ymchwilio.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i swyddogion i egluro pam fod gostyngiad yn nifer yr ymchwiliadau ac atgyfeiriadau. Nododd y Swyddogion bod y Tîm Ymchwiliadau'n edrych i mewn i anghysondebau, gyda'r adnoddau sydd ar gael, gan flaenoriaethu achosion i

sicrhau'r canlyniad gorau posibl. Gofynnodd yr Aelodau faint o achosion oedd yn arwain at erlyniadau troseddol, a'r ateb oedd bod y rhan fwyaf o achosion yn amryfus, nid yn dwyllodrus.

Gofynnodd Aelod beth oedd Caerdydd yn ei wneud o ran cyfathrebu a dysgu'r cyhoedd am faterion o dwyllo. Cafodd yr Aelodau wybod bod gohebiaeth yn cael ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

37 : GOHEBIAETH GRAFFU

PENDERFYNWYD – Y byddai'r Pennaeth Cyllid yn cysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Craffu mewn perthynas â gohebiaeth rhagorol gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

38 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Nodi'r camau sydd eto i'w cyflawni

39 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi'r Diweddariad ar y Cynllun Gwaith

40 : MATERION BRYS

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

41 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm